Iolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant
World Health Organization Collaborating Centre on Investme for Health and Well-being
GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# CYLCHLYTHYR IECHYD RHYNGWLADOL

RHIFYN 8: Hydref 2025

## Cynhadledd Partneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru (GHPC) 2025: Trawsnewid Polisi – Eiriolaeth dros Gydraddoldeb Iechyd Byd-eang




*Ymhlith siaradwyr GHPC 2025 roedd **Israa Mohammed**, Cadeirydd newydd GHCP (uchod), a **Julian Rosser**, sy'n llenwi lle'r ddiweddar **Claire O'Shea** fel Pennaeth Partneriaeth HCA.*

**'Cynulliad amserol' a 'galwad bwerus i weithredu' - gadawodd GHPC 2025 mis Medi y rhai a oedd yn bresennol yn teimlo'n llawn cymhelliant, wedi'u cyffwrdd a'u plesio gan gyfoeth o siaradwyr, arddangoswyr ac arweinwyr gweithdai.**

Agorodd **Dr Tedros Adhanom Ghebreyesus**, Cyfarwyddwr Cyffredinol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), y gynhadledd â neges fideo a oedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd cysylltiad, cydweithio a gweithredu ar y cyd.

Clywodd dros 130 o weithwyr proffesiynol iechyd y cyhoedd, llunwyr polisi, academyddion ac ymarferwyr datblygu o bob cwr o'r byd ei werthfawrogiad o bartneriaethau hanfodol fel GHPC a'i rhiant-gorff, Hub Cymru Africa (HCA).

### Llywodraeth Cymru yn Cadarnhau ei Chefnogaeth

Cafodd y ddwy bartneriaeth arnodiad y Senedd a gyflwynwyd yn bersonol.

Cadarnhaodd **Sarah Murphy**, Gweinidog Llafur Cymru dros Iechyd Meddwl a Llesiant, gefnogaeth Llywodraeth Cymru i HCA a GHPC.

Siaradodd y Gweinidog ymhellach am bwysigrwydd partneriaethau byd-eang ynddynt eu hunain, gan dynnu sylw at straeon llwyddiant drwy raglen Cymru ac Affrica.

Cafodd y gynhadledd ei hariannu gan lywodraethau Cymru a'r DU, ei threfnu ar y cyd gan GHPC a HCA, a'i chynnal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.




*Roedd **Cynhadledd GHPC 2025** yn alwad bwerus i weithredu. Roedd yn ailadrodd, fel bob amser, sut mae cydweithio yn parhau i fod wrth wraidd adeiladu dyfodol byd-eang tecach ac iachach.*

**Dr Sumina Azam**, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, a draddododd y prif anerchiad ar Degwch Iechyd yn y Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.

Myfyriodd Dr Azam ar sut mae materion byd-eang yn cyfrannu at anghydraddoldebau yng Nghymru a nododd fod "...gan Gymru lawer i'w rannu â'r byd ac y gallai Cymru ddysgu llawer gan y byd."

Roedd **Israa Mohammed**, Gwyddonydd Epidemiolegol (Uwch) mewn Diogelu Iechyd yn y Ganolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC), a Chadeirydd newydd GHCP, wrth ei bodd â'r digwyddiad. "Roedd y gynhadledd hon yn llwyddiant ysgubol, a daeth ag arweinwyr o Gymru ac o bob cwr o'r byd ynghyd am ddiwrnod a oedd yn arloesol ac yn ysbrydoledig iawn.


"Dyma'r gynhadledd gyntaf ers i Rwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica esblygu'n Bartneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru — sef carreg filltir bwysig yn ein taith gyffredin o bartneriaeth ac undod.

"Ar ran GHPC, hoffwn ddiolch o galon i dîm Hub Cymru Africa — staff a gwirfoddolwyr fel ei gilydd — am eu cefnogaeth ragorol wrth drefnu'r digwyddiad hwn, a'i reoli." Diolchodd Israa i nifer o bobl eraill hefyd.

Mae **Partneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru** yn rhan o fwrdd partneriaeth **Hub Cymru Africa** ac mae'n cefnogi 29 o gysylltiadau iechyd gweithredol - elusennau a sefydliadau yng Nghymru sy'n gweithio gyda phartneriaid mewn gwledydd incwm isel ac incwm canolig, yn enwedig ledled Affrica.

Mae GHPC yn parhau i fod yn agored i gefnogi gweithiwr gofal iechyd proffesiynol neu gyswllt iechyd sydd am gymryd rhan. E-bost: **Israa Mohammed** neu **globalhealthpartnerships**

***gan Simeon Ayoade ac Israa Mohammed. Lluniau: Nick Treherne***















"Diolch yn fawr iawn am fy ngwahodd i siarad mewn digwyddiad mor ysbrydoledig a chynhwysol. Mae pawb yn gwneud gwaith cydweithredol anhygoel sy'n gwella iechyd byd-eang ac yn achub bywydau, gan ledaenu gobaith ac undod yn yr amseroedd anodd hyn." **Sarah Murphy AS**

Clywodd y cynrychiolwyr hanesion pwerus gan **Dr Ahmed Alshantti**, meddyg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghaerdydd sy'n hanu o Gaza, a'r **Athro Tom Potokar**, Ymddiriedolwr a Sylfaenydd Interburns. Cynigiodd y ddau siaradwr fyfyrdodau teimladwy ar gwymp systemau iechyd ac ymosodiadau ar weithwyr gofal iechyd mewn parthau gwrthdaro.

Traddododd **Ben Simms**, Prif Swyddog Gweithredol Partneriaethau Iechyd Byd-eang, sgwrs effeithiol ar ddad-wladychu iechyd byd-eang. Roedd y sesiynau ar ddinasyddiaeth fyd-eang, tegwch iechyd, eiriolaeth yng Nghymru, a rôl gweithwyr iechyd diaspora yn ysgogi'r meddwl, yn sbardun i bawb ac yn gosod y llwyfan ar gyfer gweithredu parhaus ar y cyd.

"Roedd y diwrnod yn ysbrydoledig iawn. Dysgais lawer iawn a chwrddais â phobl wych." **Pippa Britton**, Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru





Dywedodd **Amanda Daniel**, Aelod o Bwyllgor GHPC a Nyrs Arbenigol Arweiniol (Gofal Cymunedol IPC, HARP, Is-adran Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru): "Roedd y gynhadledd yn gynulliad pwerus ac amserol.

Roedd ei gynnal yn Iechyd Cyhoeddus Cymru am y tro cyntaf yn tanlinellu rôl hanfodol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Daliodd Dr Sumina Azam hyn yn berffaith yn ei phrif araith: 'Mae iechyd rhyngwladol yn hanfodol i Gymru iachach a thecach.'

Roeddwn i'n arbennig o falch o Gadeirydd GHPC a'n cydweithiwr annwyl **Israa Mohammed**, a rannodd, ochr yn ochr â meddygon sy'n gweithio yn Gaza, straeon personol hynod deimladwy - sy'n atgof pwerus o'r gost ddynol sy'n gysylltiedig â gwrthdaro ac angenrhaid gweithredu ar y cyd.

Roedd yr awyrgylch yn ysbrydoledig. Roedd y cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio a chydweithio yn amhrisiadwy. Rwyf hefyd eisiau canmol yr arddangoswyr rhagorol. Roedd yr egni yn yr ystafell yn amlwg, a gobeithio y gallwn adeiladu ar y momentwm hwn i sbarduno'r strategaeth a chefnogi ein partneriaid."

# Cydweithrediad Cymdeithas Haematoleg Prydain (BSH) â Chydweithwyr yn Zambia

***gan Diana De*** *(Darllenydd Nyrsio Oedolion, Prifysgol Caerdydd)*

Hwn oedd trydydd ymweliad tîm Haematoleg Prydain i gefnogi eu cydweithwyr yn Zambia. Ein nod (4 meddyg, addysgwr nyrsio ac arbenigwr labordy) oedd gwella'r gofal a'r rheolaeth ar anhwylderau'r gwaed (Anemia, Clefyd y Crymangelloedd, Thalasemia a Haemoffilia) a hyrwyddo trallwysiadau gwaed diogel ar draws Ysbyty Athrofaol Prifysgol Lusaka yn y brifddinas ac Ysbyty Plant Arthur Davidson yn Ndola. Gyda'n gilydd, fel gweithwyr iechyd proffesiynol, roeddem wedi gallu adolygu llawer o achosion cymhleth a ffilmiau labordy a wnaeth y dysgu'n un ddwyffordd.

Fel yr unig nyrs oedd yn cyd-deithio â thasglu BSH, ehangodd fy addysgu i'r ysgolion nyrsio cysylltiedig. Gofynnwyd i mi hefyd ymgymryd â rhywfaint o waith sicrhau ansawdd i werthuso prosiect hyfforddi rhwng GIG Lloegr a Gwasanaeth Trallwyso Gwaed Cenedlaethol Zambia â'r nod o hyrwyddo gwyliadwriaeth trallwysiadau gwaed i wella gwasanaethau a chanlyniadau mamolaeth.

I grynhoi, ymgysylltais â 250 o nyrsys (ar draws y ddau safle). Roedd hyn yn cynnwys nyrsys cofrestredig sy'n gweithio'n glinigol, myfyrwyr nyrsio, ac addysgwyr nyrsio. Mae'r gwerthusiadau cynnar a gasglwyd yn dangos bod yr ymweliad BSH hwn wedi bod yn llwyddiant ysgubol.

Mae rhagor o wybodaeth a lluniau ar gael drwy LinkedIn.



***Ant a Dec gyda Diana De***

*Cafodd teithwyr ar yr awyren yn ôl i Blighty eu diddanu gan y cyflwynwyr teledu, Ant a Dec.*

*Ar ôl sgwrs fer gyda'r nyrs Diana De, dysgodd y ddau am waith aruthrol BSH a Zambia.*

***(Isod) Diana gyda gweddill grŵp BSH yn Zambia***



# 'Sarah' - Rhagflas o'r Ffilm FGM/C a Dyddiadau'r Daith

**Mae Sarah yn ffilm dod i oed wir a theimladwy sy'n canolbwyntio ar ferch ifanc Maasai sy'n byw yn harddwch Bryniau Loita, Kenya. Namurru Sarara sy'n chwarae'r brif ran mewn ffilm sy'n cyflwyno realiti llwm anffurfio organau cenhedlu benywod/enwaediad ac yn dadlau yn erbyn hyn.**

Mae'r ffilm yn seiliedig yn bennaf ar brofiadau **Sarah Tenoi** yn y byd go iawn, a hi yw cyd-gynhyrchydd y ffilm. Mae'n dal lleisiau a straeon llawer o fenywod Maa eraill hefyd.

Mae rhai yn ymddangos ar y sgrin; mae'r cast cwbl amatur i gyd yn bobl Maa, ac yn perfformio eu rolau'n rhagorol.

Sarah yw'r ffilm nodwedd gyntaf a grëwyd yn iaith Kimaasai (gydag isdeitlau Saesneg).




*Gwyliwch Ragflas ar YouTube: Rhagflas Swyddogol Ffilm SARAH (2025) (Maa yn unig)*

## Ble mae Gwylio Sarah

Daeth Sarah's Movement – UK Tour 2025 â'r ffilm i Brydain. Mae'r daith wedi symud ymlaen i Kenya â dyddiadau tan ddiwedd 2025. Bydd rhagor o ddangosiadau am ddim ym Mhrydain yn ystod mis Mawrth 2026, ac mae'n cynnwys dangosiad yng Nghaerdydd.

Bydd y ffilm yn cael ei ffrydio ar-lein yn ddiweddarach yn 2026.

**Cliciwch am ragor o wybodaeth**

## S.A.F.E. Kenya

Mae Sarah Tenoi yn gyd-sefydlydd S.A.F.E. (Sponsored Arts for Education) Maa. Mae'n rhan o S.A.F.E. Kenya ehangach sy'n canolbwyntio ar ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd ac addysg drwy gyfrwng y Celfyddydau - dawns lwythol, dramâu a gweithdai cymunedol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwnaeth lawer iawn o waith ar newid credoau ac arferion ynghylch FGM/C, ac yn ddiweddar cynhyrchodd ffilm hir ar y pwnc hwn.

## Rwbela a'r Frech Goch Wedi diflannu o 21 o Ynysoedd y Môr Tawel
### - Japan yw'r Diweddaraf i'w Dileu

Ni fu adnoddau cyfyngedig yn rhwystr i fenter enfawr iechyd y cyhoedd yng Ngorllewin y Môr Tawel. Roedd cydweithio yn allweddol o ran cyflawni hyn; ac roedd yn wirioneddol drawiadol.

***Bu'r ymgyrch amlasiantaethol benderfynol honno'n ddigon i ddileu'r frech goch a rwbela mewn un ar hugain o ynysoedd y Môr Tawel.***

Dywedodd **Ember Hilvers** (Gwyddonydd Epidemiolegol Gofal Iechyd (Uwch), Iechyd Cyhoeddus Cymru), "Fy ymateb cyntaf oedd 'wow, da iawn!' ac yna 'sut wnaethon nhw gynnal cyfraddau uchel y rhai oedd yn cael eu brechu - yn enwedig yn dilyn y diffyg ymddiriedaeth yn y brechlyn a ddatblygodd yn ystod y pandemig?"

Er bod cost, daearyddiaeth a thrafnidiaeth yn peri heriau, nododd mai'r "rhwystr mwyaf yw newid agweddau ar raddfa fawr."


Darllenwch ragor mewn datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan Swyddfa Ranbarthol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Gorllewin y Môr Tawel ym Manilla.

## Datrysiadau i Glefydau Anhrosglwyddadwy
### - y Mesurau Diogelu Gorau

**Mae cyhoeddiad newydd 33 tudalen o hyd gan dîm Penderfynyddion Cymdeithasol Iechyd (SDH) Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar gael i'w lawrlwytho ar ei wefan.**




*Mae Saving Lives, Spending Less: The Global Investment Case for Noncommunicable Diseases (copi Saesneg yn unig) yn cyflwyno'r achos dros flaenoriaethau cost-effeithiol wrth fuddsoddi mewn iechyd. Darllenwch ragor yma a lawrlwythwch y ddogfen o wefan WHO.*




## Effaith Newid Hinsawdd ar Lywodraethu Iechyd y Cyhoedd

***Climate Change and Public Health: Governance and Challenges (Saesneg yn unig). Dyma lyfr newydd a ryddhawyd gan y cyhoeddwyr academaidd Manipal Universal Press (MUP) yn India.***

Mae'r **Athro Liz Green**, Pennaeth Uned Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru a'r Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn un o blith ystod eang o gyfranwyr arbenigol yn y llyfr. Teitl ei phennod yw A HIA of Climate Change in Wales. Gellir prynu'r llyfr o:

Springer Nature (y tu allan i India) | MUP (o fewn India)

(Saesneg yn unig)


## Recordiadau o Gynhadledd Penderfynyddion Masnachol a Gwleidyddol Iechyd

Mae recordiadau a sleidiau ar gael nawr o Turning the Tide: Tackling the Commercial and Political Determinants of Health through Policy and Practice, Cyd-gynhadledd Iechyd y Cyhoedd Iwerddon a gynhaliwyd yn rhithwir ar 18 Medi, 2025.

Cafodd y gynhadledd ei chynnal gan Sefydliad Iechyd y Cyhoedd (IPH), sefydliad sy'n gwasanaethu Iwerddon a Gogledd Iwerddon ac yno, archwiliwyd cwestiwn pwysig, sef: Sut allwn ni newid pethau o ran y dylanwadau masnachol sy'n effeithio ar iechyd a llesiant?

Cliciwch yma am wybodaeth ac i lawrlwytho'r ddogfen

(Saesneg yn unig)





## Adroddiad Blynyddol Sefydliad Iechyd y Cyhoedd 2024

Ym mis Medi 2025 cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Cyhoedd ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024.

Cliciwch yma am wybodaeth ac i lawrlwytho'r ddogfen

(Saesneg yn unig)




## Diffyg Cynnydd dros 10 Mlynedd mewn Anghydraddoldebau Cymdeithasol ac Iechyd yn yr UE

Yn ôl adroddiad a lansiwyd ym mis Medi 2025, mae'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol mewn iechyd wedi arafu dros gyfnod o ddegawd.

Cliciwch yma i fynd i EuroHealthNet ac i Lawrlwytho'r ddogfen

(Saesneg yn unig)

# Lansio Cyfres wedi'i Hanimeiddio ar Addysg Iechyd Byd-eang FIFA yng Ngweriniaeth Kyrgyz a Tajikistan

**Mae pŵer pêl-droed yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo iechyd mewn amrywiaeth o bynciau sydd wedi'u hanelu at blant. Dangoswyd un ar ddeg o fideos wedi'u hanimeiddio (mewn wyth iaith) mewn digwyddiadau yng Ngweriniaeth Kyrgyz a Tajikistan.**




Mae hyn yn rhan o fenter newydd gan Fédération Internationale de Football Association (FIFA). Mae'r Gyfres wedi'i Hanimeiddio ar Addysg Iechyd yn gobeithio cyrraedd pobl ifanc yn fyd-eang, yn enwedig rhai o ardaloedd difreintiedig. Ei 'nod yw adeiladu cenedlaethau iachach a mwy cynhyrchiol', fel 'adnodd addysgol byd-eang i deuluoedd, hyfforddwyr, ysgolion a disgyblion.'

Yn ystod y lansiad a gafodd ei gynnal dros dridiau, bu **Hristo Stoichkov**, arwr pêl-droed Bwlgaria, yn rhannu awgrymiadau a rhoi cyfle i rywrai dynnu lluniau ohono. Fel llysgennad Pêl-droed i Ysgolion FIFA, roedd ei bresenoldeb yn pwysleisio cyswllt y mentrau hyn â'i gilydd.

**Cliciwch am ragor o wybodaeth**
(Saesneg yn unig)

Arweiniodd **Dr Andrew Massey** (Cyfarwyddwr Meddygol FIFA) a **Khloud Sebak** (Uwch Reolwr Iechyd a Phrosiectau Meddygol FIFA) weithdai y bu wyth deg o blant o Kyrgyz a Tajikstan yn bresennol ynddynt. Ar ôl dysgu Cymorth Cyntaf hanfodol yn cynnwys CPR, cafodd pob plentyn 'Dystysgrif Arwr y Galon'. Fe'u hanogwyd i roi eu sgiliau newydd ar waith yn ôl y gofyn pan fyddai angen ymateb brys. Aeth dros 300 o blant â ffeithluniau yn eu hiaith eu hunain a oedd yn egluro pwysigrwydd iechyd y galon oddi yno gyda nhw.

***Lluniau gan FIFA***








# Digwyddiadau a Chynadleddau i Ddod




## Cyngres Iechyd Meddwl y Byd: Iechyd meddwl a Chynaliadwyedd Cymdeithasol

Barcelos, Portiwgal

**30 Hydref - 24 Tachwedd 2025**

09:45 - 14:00pm

**Cliciwch am ragor o wybodaeth**

Saesneg yn Unig

## 18fed Cynhadledd Iechyd y Cyhoedd Ewropeaidd 2025 Buddsoddi ar Gyfer Iechyd a Llesiant Cynaliadwy

Neuadd Finlandia, Helsinki, Y Ffindir

**11/12 – 14 Tachwedd 2025**

09:45 - 14:00pm

**Cliciwch am ragor o wybodaeth**

Saesneg yn Unig

## Iechyd Cyhoeddus Cymru: Fforwm Iechyd Rhyngwladol

Gweminar Microsoft Teams  Ar-lein

**12 Tachwedd 2025**

10:00 - 11:30am GMT

**Cliciwch i Gofrestru ar gyfer y Digwyddiad**

Saesneg yn Unig

## Cymdeithas Frenhinol Meddygaeth Drofannol a Hylendid: Ymchwil Fyd-eang yn Mynd Rhagddo

Cyfarfod ar-lein - am ddim i aelodau RSTMH; £10 i'r rhai nad ydynt yn aelodau

**20 Tachwedd 2025**

12:00 - 17:00 GMT

**Cliciwch am ragor o wybodaeth**

Saesneg yn Unig

## Ymweliad Cyfnewid Gwledydd EuroHealthNet: Gwella Iechyd ar gyfer Poblogaethau Hynod Agored i Niwed

Athen, Gwlad Groeg

**24 - 25 Tachwedd 2025**

AELODAU YN UNIG

**Cliciwch am ragor o wybodaeth**

Saesneg yn Unig




## Cyfres Arweinyddiaeth Meddwl:
## 10 Mlynedd o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Sparc | Spark, Caerdydd

**24 Tachwedd 2025**

09:45 - 14:00pm

Cliciwch am ragor o wybodaeth

## Newid Hinsawdd a Chlefydau Milheintiol:
## Tueddiadau Byd-eang, Realiti Lleol – Bygythiad Pandemig ar y Gorwel?

**Canolfan Arbenigol Rhyngddisgyblaethol ar Newid Hinsawdd ac Iechyd (IECCCH)**
**Prifysgol Gwyddorau Cymhwysol Hamburg (HAW Hamburg)**

Digwyddiad ar-lein

**27 Tachwedd 2025**

13:00 - 16:00 CET

Cliciwch i Gofrestru ar gyfer y Digwyddiad

Saesneg yn Unig

# Cysylltu â Ni

**Os oes gennych unrhyw straeon neu brosiectau rhyngwladol yr hoffech iddynt gael sylw yn ein cylchlythyrau sydd ar ddod, anfonwch e-bost at:**

Laura.holt@wales.nhs.uk
Joanne.Harrington2@wales.nhs.uk